| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **7 Mawrth 2024** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Diwygio Cyfansoddiad – Trefn Datrys Mewnol** |
| **PWRPAS** | **I gynnig diwygiadau i'r Drefn Datrys Mewnol a Chraffu ynghyd ac adrodd ar addasiadau dirprwyedig i'r Cyfansoddiad** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng Menna Trenholme – Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol a Chyfreithiol** |
| **AWDUR** | **Iwan Evans – Swyddog Monitro** |

## Cefndir

1. Mabwysiadwyd Safon Gwynedd yn wreiddiol gan y Cyngor Llawn ar 21, Hydref, 2010. Ei bwrpas oedd sefydlu safon dderbyniol o ymddygiad rhwng aelodau a'i gilydd a chynorthwyo'r Cyngor i ddatrys mân gwynion o gamymddwyn, sef y cwynion rheini nad oeddynt yn ddigon difrifol i'w cyfeirio at yr Ombwdsmon fel materion oedd yn torri'r Côd Ymddygiad.

2. Ochr yn ochr â Safon Gwynedd mabwysiadwyd Trefn Ddatrys Leol (a welir yma fel Atodiad 1). Hon oedd yn rheoli unrhyw honiadau bod aelod wedi torri'r Protocol Aelod/Swyddog ac fe'i diwygiwyd i'w gwneud yn berthnasol i gwynion dan Safon Gwynedd hefyd. Mae'r drefn wedi bodoli i gefnogi y cyfundrefnau yma ers hynny. Diwygiwyd y drefn i'w ffurf presennol yn 2014.

3. Defnyddir y Drefn Datrys Leol yma ar gyfer ymdrin â chwynion lefel isel rhwng Aelodau'r Cyngor. Yn sgil Deddf Llywodraeth Leol 2021, cyflwynwyd dyletswydd statudol newydd ar gyfer Arweinyddion Grwpiau ac felly roedd yn briodol adolygu y Drefn Ddatrys Leol er mwyn adlewyrchu'r ròl newydd arweinyddion grwpiau gwleidyddol yn y Drefn. Mae'r dyletswydd newydd yn gosod cyfrifoldebau ar arweinyddion grwpiau i gynnal ac annog safonau o ymddygiad ymhlith aelodau eu grwpiau .

4. Yn ei gyfarfod ar y 6ed o Dachwedd penderfynodd y Pwyllgor Safonau argymell i'r Cyngor Llawn fod y drefn yn cael ei haddasu er cyflawni hyn. Mae'r hyn a argymhellir yn cael ei nodi wedi eu tanlinellu yn Atodiad 1.

   https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//ielistdocuments.aspx?cid=157&mid=4900&ver=4&

## Addasiadau Eraill i'r Cyfansoddiad

5. Yn deillio o benderfyniad y Cyngor ar y gyfundrefn Craffu argymhellir y newidiadau yn Atodiad 2.

6. O ganlyniad i benderfyniad i ail strwythuro Adrannau'r Cyngor yn 2023, oedd yn trosglwyddo swyddogaethau Ymgynghoriaeth Gwynedd i'r Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth ynghyd a'r Gwasanaeth gwastraff i'r Adran Amgylchedd, dirprwywyd y gwaith o ddiwygio'r Cyfansoddiad i'r Swyddog Monitro gan y Cabinet.

6. Yn ogystal mae newid yn y cynllun dirprwyo i gyfarch gofynion Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

7. Mae'r diwygiadau i'r Cynllun Dirprwyo yn adlewyrchu hyn ynghyd â diweddaru'r ddeddfwriaeth i'w gweld yn Atodiad 2 gyda'r pwerau wedi eu trosglwyddo oddi wrth yr adrannau eraill. Mae'n ofynnol adrodd ar unrhyw addasiadau i'r Cyfansoddiad i'r Cyngor er gwybodaeth.

## Argymhelliad

**Fod y Cyngor yn:**

1. **mabwysiadu y newidiadau i'r Drefn Datrys Mewnol Atodiad 1,**
2. **mabwysiadu yr addasiadau i Adran 7 – Craffu Atodiad 2 ac,**
3. **yn derbyn yr adroddiad ar yr addasiadau dirprwyedig Atodiad 3.**

**SWYDDOGION STATUDOL**

**Prif Swyddog Cyllid**

"Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.

**Swyddog Monitro**

Awdur yr adroddiad

## <u>ATODIAD 1</u>

## TREFN DATRYS LEOL CYNGOR GWYNEDD
## TREFN AR GYFER YMDRIN Â HONIADAU FOD AELOD WEDI TORRI'R PROTOCOL CYSWLLT AELOD-SWYDDOG NEU SAFON GWYNEDD

## <u>CYFLWYNIAD</u>

1. Mae'r Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog yn arf bwysig i hybu cydweithrediad da rhwng aelodau a swyddogion o fewn y Cyngor a thrwy hynny caniatáu i'r cyngor gyflawni ei ddyletswyddau yn y modd mwyaf effeithiol a phroffesiynol. Yn yr un modd mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Safon Gwynedd er mwyn hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad ymysg aelodau. Mae'n bwysig felly bod modd ymdrin yn gyflym ac effeithiol gydag unrhyw honiad yn erbyn aelod ei fod wedi torri'r protocol neu'r Safon. Diben y drefn leol hon yw cyflwyno dull syml a hawdd i'w deall i ymdrin â honiadau o'r fath.

## CAM 1 O'R DREFN

2. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno honiad dan y drefn hon anfon ei gwyn (yn achos swyddog yn dilyn ymgynghoriad gyda'i Bennaeth Adran) at y Swyddog Monitro. Yn dilyn derbyn cwyn bydd y Swyddog Monitro yn gweithredu fel a ganlyn :-

3. Yn y lle cyntaf cynhelir ymchwiliad rhagarweiniol byr i sefydlu'r ffeithiau (lle'n bosib) a'r meysydd anghytundeb. **Anfonir copi o'r gwyn i'r aelod o fewn 7 diwrnod gwaith o dderbyn y gwyn gyflawn.** **Mewn achos cwyn rhwng aelodau etholedig bydd y Swyddog Monitro yn anfon copi o'r gwyn i Arweinydd Grŵp Gwleidyddol yr aelod y cwynir yn eu herbyn..** Trafodir datrysiadau posib gyda'r achwynydd a'r aelod y gwneir yr honiad yn ei erbyn i sefydlu a oes modd cael datrysiad cyflym. **Gyda cytundeb y cwynydd a'r sawl a gwynir yn eu herbyn gellir dwyn yr Arweinyddion Grwpiau perthnasol i'r drefn ar y pwynt yma i gefnogi y broses.** Ar y cam yma rhoddir cyngor i'r achwynydd a fyddai ffordd arall o weithredu (e.e. cyfeirio i'r Ombwdsmon) yn fwy addas. Gall y cam yma gael ei drin gan y Swyddog Monitro yn bersonol neu gan swyddog arall a benodir ganddo.

4. Os yn dilyn y cam cyntaf y bydd yr achwynydd yn dymuno bwrw ymlaen gyda honiad dan y drefn hon, gellir cyfeirio'r mater, naill a'i i gyfarfod cymodi dan Gam 2 neu i wrandawiad gan y Pwyllgor Safonau dan Gam 3.

## CAM 2 O'R DREFN

5. Yng ngham 2 cynhelir cyfarfod rhwng y sawl sy'n cwyno, yr aelod y gwneir yr honiad yn ei erbyn, y Swyddog Monitro ac (os ystyrir yn briodol) personau eraill a wahoddir gan y Swyddog Monitro. Gall personau o'r fath gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y Prif Weithredwr ac Arweinydd Grŵp y grŵp(iau) gwleidyddol perthnasol. Mae modd i swyddog gael cydweithiwr neu uwch swyddog o'r adran yn bresennol gydag ef/hi. Mae hefyd yn bosib ymdrin â'r mater yn absenoldeb swyddog mewn achosion eithriadol. Bwriad y cyfarfod yma fydd ceisio datrys y mater heb fynd ymhellach.

## CAM 3 O'R DREFN

7. Y trydydd cam yw gwrandawiad gerbron y Pwyllgor Safonau. Gofynnir i'r sawl sy'n cwyno gyflwyno sylwedd ei gŵyn yn ysgrifenedig a gofynnir am ymateb ysgrifenedig gan yr aelod dan sylw. Bydd y papurau hyn ynghyd ag unrhyw dystiolaeth

ysgrifenedig ychwanegol a ddarperir gan y naill ochr neu'r llall yn cael eu dosbarthu i aelodau y Pwyllgor Safonau.

7. Bydd gan y sawl sy'n cwyno a'r aelod sy'n destun y gwyn yr hawl i ymddangos gerbron y Pwyllgor Safonau ac i gyflwyno tystiolaeth gan dystion. Ni dderbynnir tystiolaeth ysgrifenedig yn unig gan dyst heb gytundeb yr ochr arall. Bydd gan y ddau hawl i gael cynrychiolydd neu gydweithiwr yn bresennol. Ni fydd y Cyngor yn talu cost cynrychiolwyr.

8. Pe byddai'r naill ochr neu'r llall yn dymuno peidio bod yn bresennol, neu yn methu ymddangos, gellir cynnal y gwrandawiad yn eu habsenoldeb.

9. Wedi i'r dystiolaeth gael ei chlywed gofynnir i'r ddwy ochor a'u cynrychiolwyr adael yr ystafell a bydd y Pwyllgor Safonau yn dod i benderfyniad ar yr honiad. Bydd y Swyddog Monitro wrth law i gynghori'r Pwyllgor.

10. Gall y Pwyllgor ddod i un o dri penderfyniad, sef :-

| | |
|---|---|
| a) | Nad oes sail i'r honiad; |
| b) | Bod sail i'r honiad, ond nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach; |
| c) | Bod sail i'r honiad ac y dylid ceryddu'r Aelod. |

Yn ychwanegol fe all y Pwyllgor wneud argymhellion i'r Cyngor ynglŷn â newid unrhyw gyfundrefnau neu gymryd unrhyw gam pellach.

## MATERION ATODOL

11. Ni roddir cyhoeddusrwydd i enwau y partïon oni bai y penderfynir bod sail i'r honiad. Bydd y gwrandawiadau gerbron y Pwyllgor Safonau yn eithriedig.

12. Nid oes raid dilyn camau 2 a 3 mewn trefn. Er bod modd i achwynydd sydd yn parhau yn anfodlon wedi y cyfarfod cymodi ofyn am i'r mater gael ei gyfeirio i wrandawiad gerbron y Pwyllgor Safonau, mae hefyd yn bosib i fater fynd yn syth gerbron Pwyllgor Safonau heb fynd i gyfarfod cymodi yn gyntaf. Mae'n bosib i aelod gynnig ymddiheuriad unrhyw adeg hyd at y gwrandawiad ond pe byddai'r gwrandawiad wedi ei drefnu a bod yr achwynydd yn dymuno peidio parhau â'i gwyn bydd angen cydsyniad Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i ddiddymu'r gwrandawiad.

3. Nod y drefn hon yw ceisio datrys cwynion am aelodau yn gyflym ac yn effeithiol. Nid oes dim yn y drefn yn atal hawl unrhyw un rhag cyflwyno cwyn i ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus cymru fod aelod wedi torri y côd ymddygiad. Fe allai'r ombwdsmon, os yw o'r farn fod achos i'w ateb, gyfeirio'r mater at y pwyllgor safonau, neu at banel dyfarnu cymru, sydd â'r hawl i ddiarddel aelod am gyfnod o hyd at 5 mlynedd .

**ATODIAD 2**

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Craffu<br>Cymunedau 18 aelod | Craffu ar faterion yn ymwneud â swyddogaethau'r:<br><br>• Adran Amgylchedd<br>• <u>Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd</u><br>• Cynllun Datblygu Lleol<br>• Trosedd ac Anrhefn<br>• Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>• <u>Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur</u> |

**ATODIAD 3**

**1. Y Prif Weithredwr**

**<u>Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cabinet</u>**

1.3 Gweithredu pwerau'r Cyngor dan Ddeddf Digwyddiadau Sifil 2004 a hawliau cyffredinol i weithredu mewn argyfwng sifil .

1.4 Cefnogi'r Cabinet

1.5 .Rhaglen Cefnogi Pobl

**2. Pennaeth Addysg.**

3.2 **<u>Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cabinet</u>**

- Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar
- Gwasanethau Ieuenctid

**10. Pennaeth Priffyrdd Perianeg ac Ymgynghoriaeth**

**<u>Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cabinet</u>**

10.1 Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:-

- ~~Casglu Gwastraff~~
- ~~Ailgylchu / Gwaredu Gwastraff~~
- Cyfleusterau Cyhoeddus

- Cynnal a chadw priffyrdd
- Fflyd y Cyngor
- Glanhau strydoedd
- Amlosgfa/gwasanaeth claddu
- Meysydd chwarae
- Cynnal tiroedd
- Teledu cylch cyfyng
- Asesiadau amgylcheddol
- Paratoi, rheoli a goruchwylio contractau gwaith ffyrdd
- Arolygon, archwiliadau a phrofion technegol
- Amddiffyn yr arfordir
- Dylunio a chynnal a chadw adeiladau.

10.2 Pŵer i gyhoeddi rhybuddion yn cau ffyrdd dros dro dan Ddeddf Priffyrdd 1980.

10.3 Pŵer i ymdrin ag unrhyw rwystrau ar briffyrdd gan gynnwys rhoi rhybuddion.

10.4 Pŵer i wneud unrhyw beth a fo'n angenrheidiol i reoli fflyd y Cyngor.

10.5 ~~Pŵer i wneud cais am drwydded gweithredwr mewn perthynas a swyddogaethau gwastraff y Cyngor~~

10.5 Y pŵer i weithredu hawliau gorfodaeth mewn perthynas â throseddau amgylcheddol sy'n codi dan unrhyw un o'r Deddfau a restrir isod (gan gynnwys camau a fo'n angenrheidiol i atal troseddu, addysgu a rhoi Rhybuddion Cosb Penodedig.

- Deddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996
- Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990
- Rheoliadau Symud a Chael Gwared a Cherbydau 1986
- Deddf Cael Gwared o Ysbwriel (Mwynder) 1978
- Deddf Amgylchedd a Chymdogaethau Glân 2005
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003
- Deddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989

10.6 Bod y Swyddog Awdurdodi ar gyfer dibenion Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a caiff awdurdodi swyddogion eraill o fewn y gwasanaeth i fod yn Swyddog Awdurdodi yn yr un modd.

10.7 Pŵer i gyhoeddi rhybuddion gwarchod y gymuned o dan Rhan 4 o'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Trosedd a Phlismona 2014.

10.8 Gweithredu holl swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â rheolaeth adeiladu boed dan Ddeddf Adeiladu 1984 neu arall.

10.9 Gweithredu holl swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â Deddf Dwr a Llifogydd 2010.

10.10 Paratoi dyluniadau a chynlluniau sydd yn delio a dŵr wyneb gan gynnwys yr hawl i ymlacio neu wyro o safonau Cyfoeth Naturiol Cymru.

**11.**

**Pennaeth Amgylchedd**

**Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cabinet**

- Casglu Gwastraff

- Ailgylchu / Gwaredu Gwastraff
- Pŵer i wneud cais am drwydded gweithredwr mewn perthynas a swyddogaethau gwastraff y Cyngo~~r~~

Ychwanegu y Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 at y rhestr o Ddeddfau a gyfeirir atynt yn 11.3.2:

**~~12~~ ~~Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd~~**

~~Yn y "Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau" yn Atodiad 1 i Adran 13 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.~~

**~~Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cyngor~~**

~~Dim~~

**~~Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cabinet~~**

~~12.1 Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:-~~

- ~~Asesiadau amgylcheddol~~
- ~~Paratoi, rheoli a goruchwylio contractau gwaith ffyrdd~~
- ~~Rheolaeth adeiladu~~
- ~~Asesiadau traffig~~
- ~~Arolygon, archwiliadau a phrofion technegol~~
- ~~Amddiffyn yr arfordir~~
- ~~Dylunio a chynnal a chadw adeiladau.~~

~~12.2 Gweithredu holl swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â rheolaeth adeiladu boed dan Ddeddf Adeiladu 1984 neu arall.~~

~~12.3 Gweithredu holl swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â Deddf Dwr a Llifogydd 2010.~~

~~12.4 Paratoi dyluniadau a chynlluniau sydd yn delio a dŵr wyneb gan gynnwys yr hawl i ymlacio neu wyro o safonau Cyfoeth Naturiol Cymru.~~